DATGANIAD I'R WASG
11 Tachwedd 2009

Taith fythgofiadwy i'r Paith

Cafodd ugain o aelodau'r Urdd o ogledd Cymru daith i'w chofio dros gyfnod hanner tymor eleni. Treuliodd disgyblion o Ysgolion Amlwch, Llangefni, David Hughes, Porthaethwy; Tryfan, Dyffryn Conwy, Creuddyn, Glan Clwyd, Brynhyfryd a Maes Garmon ddeng niwrnod cofiadwy ym Mhatagonia.

Trefniant ar y cyd oedd y daith rhwng Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith y Gogledd a Menter Patagonia. Gwnaed y daith y bosib trwy gymorth ariannol gan Gwmni Ynni Gwynt Cymru yn ogystal â chwmnïau lleol eraill. Cafodd y bobl ifanc eu dewis yn dilyn cyflwyno ffurflenni cais, a'u cyfrifoldeb hwy oedd codi arian ar gyfer y daith.

Yn ystod eu hymweliad â'r Wladfa, cawsant gyfle i brofi diwylliant a threftadaeth y wlad yn ogystal â chynorthwyo rhai o'r trigolion i baratoi ar gyfer Eisteddfod Trelew. Cawsant gyfle i geisio hyrwyddo'r Gymraeg yn Esquel, Y Gaiman a Phorth Madryn trwy gymryd rhan mewn gwahanol weithdai yn yr ysgolion a cholegau.

Yn ôl Robert Malcolm Jones, Ysgol Brynhyfryd;
''Roedd y daith yn brofiad hollol anhygoel a bythgofiadwy. Doeddwn i ddim yn disgwyl cael cymaint o groeso gan y bobl leol. Hoffwn fynd yn ôl i Batagonia rhyw ddydd yn bendant.''

Meddai Eryl Vaughan, Cyfarwyddwr Rheoli Ynni Gwynt Cymru;
Mae'r mudiad yn gwneud gwaith pwysig yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc o Gymru ehangu eu gorwelion. Rydyn ni'n falch o allu helpu'r mudiad a'r aelodau i gefnogi diwylliant y Wladfa a'i chysylltiadau diwyllianol â Chymru."

Dywed Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru;
"Rydym yn falch iawn o allu rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu am ran arall o'r byd, a chreu cysylltiad gwell rhwng Cymru a Phatagonia. Gobeithio y gallwn ninnau groesawu pobl ifanc o Batagonia yma i Gymru yn y dyfodol, gan gynnig profiad o berthyn i fudiad ieuenctid fel yr Urdd tra byddant yma.''

Diwedd

Am fwy o fanylion cysyllter â Manon Wyn, Swyddfa'r Urdd, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth, 01970 613115, manonwyn@urdd.org

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.